# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**13 TACHWEDD 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, J.M. Charles, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, J.S. Phillips, D.E. Williams and J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu;
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 11:00am - 11:25am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies ac A. McPherson.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu cais a ddaeth i law gan Mrs Carys Ifan ar ran Canolfan S4C yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio ffilm fer a oedd yn ddiddosbarth.

Roedd yr ymgeisydd yn bwriadu dangos y ffilm Gymraeg "Helfa'r Heli" yng Nghanolfan S4C a fyddai'n cael ei awdurdodi o dan hysbysiad digwyddiad dros dro wedi'i gyflwyno gan yr ymgeisydd o dan Adran 100 Deddf Trwyddedu 2003.

Nodwyd yn ei gyfarfod ar 4 Ebrill 2018, fod y Pwyllgor Trwyddedu eisoes wedi ystyried y ffilm hon mewn perthynas â'i dangos mewn safle arall a phenderfynwyd ar ddosbarthiad oedran o 12A [gweler Eitem 7 ar yr Agenda].

Er mwyn i'r Pwyllgor wneud yr argymhelliad gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilm, cafodd y Pwyllgor gyfle i wylio'r ffilm fer gan roi ystyriaeth i'r cyfeiriadau at ymddygiad dynwaredadwy, iaith, noethni a rhyw.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw priodol i'r paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ac o Ganllawiau a gyflwynwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD y dylai'r ffilm sy'n dwyn y teitl "Helfa'r Heli" gael ei hystyried yn ffilm na chaiff personau o dan 12 oed ei gwylio heb gyfarwyddyd rhiant (12A).**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**